

Iechyd

Darllen: Marc 5:27–28

Dychmygwch y sefyllfa.

‘Mentrais i’r drws ddoe. Edrychais i fyny ac i lawr y stryd, a gwelais rywun yn dod. Caeais y drws yn glep. Rwyf am fentro eto heddiw, gan obeithio na wela’ i neb. A gobeithio na fydd neb yn fy ngweld i. Na, does gen i ddim awydd agor y drws heddiw. Mi eistedda’ i yma nes daw Sara. Mae hi’n gymdoges dda. Byth yn busnesu, ond bob amser yn barod i helpu. Mi ddywedodd ddoe y buasai’n dod i mewn cyn i’r haul fachlud. Rwy’n edrych ymlaen at ei gweld heno. Mae’n dweud fod ganddi feddyginiaeth newydd sbon. Ys gwn i beth fydd ganddi’r tro hwn. Mae hi wedi sôn rhywbeth am wy. Ie, wy. Gobeithio y bydd hwn yn llwyddiannus. Mi ydw i wedi trio bob dim dan haul.

‘Does gennych chi ddim syniad sut rwy’n teimlo. Nag oes wir. Teimlo’n gwbl fudr ac aflan. Does neb yn dod yma – neb ond Sara. A dydi hi ddim yn eistedd, rhag ofn y bydd hithau’n aflan. Dydw’i ddim wedi gweld fy ngheulu ers blynyddoedd. Neb, neb o gwbl ond Sara annwyl. Rydw i’n dioddef fel hyn ers deuddeg mlynedd. Dioddef yn ddistaw, ddistaw bach. Dim ond y fi a’m haflendid. Waeth i mi eistedd yn yr un hen gongl nes daw Sara. Dim ond gobeithio!’

‘Beth sydd gen ti yn y cwodyn llin yna, Sara?’

‘Mi aeth Mam a fi i’r farchnad y diwrnod o’r blaen a dyma un o’r stonidwyr yn dweud bod ganddo feddyginiaeth at waedlif, a gwrandewais arno’n mynd trwy’i bethau. A dyma Mam a fi’n edrych ar ein gilydd, a’r munud hwnnw dyma ni’n meddwl amdanoch chi.’

‘Wel, Sara bach, beth sydd gen ti?’

‘Yn ôl y gwerthwr, roedd rhaid i ni brynu wy estrys, ac yna’i falu’n deilchion a’i losgi, ac yna rhoi’r lludw yn y cwodyn llin yma am ei bod hi’n haf, neu buasai’n rhaid i ni ei roi mewn cwodyn cotwm yn y gaeaf. Mi ydw i am adael hwn i chi i wneud fel y mynnoch. Wela i chi fory.’

‘Mi rwyt ti’n garedig. Mi gymra i rywbeth i wella. Mae hyn yn dweud arna’ i. Mi fydda’ i wedi mynd o’ m cof yn fuan iawn.’

‘Pwy ydi’r bobl yma sy’n mynd heibio’r ffenest? Maen nhw’n sôn am Iesu. Mae Sara wedi sôn dipyn amdano fo. Mae o’n gallu gwella pobl. Pawb ond y fi, mae’n siŵr. Ond mae’n rhaid i mi fentro. Wnaeth lludw’r wy estrys ddim lles i mi, mwy na’r holl feddyginiaethau eraill. Mi ydw i am fentro agor y drws, ac os daw o heibio mi af y tu ôl iddo a ... a ... a chyffwrdd ag ymyl ei wisg. Mi fydd hynny’n ddigon. Dim ond cyffyrddiad. Un cyffyrddiad bach, dyna i gyd.

‘A dyna lle’r oeddwn yng nghanol y dorf, a’r munud y gwnes i gyffwrdd ag ymyl ei fantell dyma fo’n stopio’n stond ac edrych arna’ i a deud, ‘Cod dy galon, fy merch; y mae dy ffydd wedi dy iacháu di’. Roedd pawb wedi stopio. Pob un yn edrych arna’ i! Y fi, y wraig dlawd, gyffredin, aflan oedd yn bwysig. Iddo fo, does neb ar goll yn y dyrfa. Mewn dyddiau pan fo’r unigolyn mewn perygl o fynd ar goll yng nghanol môr o bobl – mewn dyddiau pan nad ydi’r unigolyn yn ddim ond rhif yng nghanol ystadegau – mor braf ydi meddwl ein bod yn cyfrif ac yn ddigon pwysig i Iesu gymryd diddordeb, gwella a chyfannu. Mi dafla’ i weddillion y lludw rŵan!’

Myfyrdod pellach:

Beth am bobl yn y gymuned sydd eisiau cyffwrdd ag ymyl ei fantell yn unig? Sut mae delio â hwy?

Ydyn ni’n rhy barod i feirniadu pobl fel hyn?